# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 25 IONAWR 2024 AM 10:00

## Presennol

G Chapman – Cadeirydd (aelod lleyg)

M L Hughes    S J Bletsoe    RM Granville

## Yn bresennol yn rhithiol

C Davies    SJ Griffiths    A Williams    AJ Williams

Aelodau Lleyg:

B Olorunnisola
A Bagley

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Anthony Veale | Archwilio Cymru (Allanol) |

| | |
|---|---|
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMRh) |
| David Williams | Archwilio Cymru (Allanol) |
| Kate Pask | Swyddog Gwella Corfforaethol – Perfformiad |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro / Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddiaeth Busnes – Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 122. Cymeradwyo'r cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 9 Tachwedd 2023 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

## 123. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gamau gweithredu dilynol y ceisiwyd amdanynt ar adroddiadau a materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor.<br><br>Rhoddodd Aelodau sylwadau ar nifer o faterion yn ymwneud ag Atodiad A o'r Cofnod Gweithredu, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• P'un a oedd dyddiad wedi cael ei gytuno hyd yma ar gyfer y cyflwyniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nodwyd bod swyddogion yn dal i geisio dod o hyd i ddyddiad addas.<br>• Yr angen i benodi aelod lleyg newydd i'r Pwyllgor. Hysbyswyd yr Aelodau bod y gwaith papur gofynnol wedi cael ei gwblhau a bod yr hysbyseb ar fin cael ei gyhoeddi.<br>• Gofynnodd Aelod am fewnbwn i'r trafodaethau ynghylch y briff prosiect ar gyfer archwilio materion |

| | |
|---|---|
| | llywodraethu mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf a gynlluniwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn Chwarter 4. Gofynnodd Aelod arall a oedd amser i allu cwblhau'r gwaith hwn yn ystod Chwarter 4. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol bod yr adnoddau ar gael i wneud y gwaith hwn ac mai dim ond mireinio briff y prosiect oedd angen. Awgrymodd hefyd y byddai sylwadau'r Aelodau'n cael eu hystyried wrth gadarnhau'r briff. Fe wnaeth y Cadeirydd hefyd atgoffa Aelodau o rôl bwysig Craffu wrth edrych ar y maes gwaith hanfodol hwn. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 30 Ionawr.<br>• Cododd Aelod fater Cerbydau Ysgol a ph'un a oedd llythyr a anfonwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg at bob ysgol ar gael i'w rannu gydag Aelodau. Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai'n gwirio hynny. Fe wnaeth y Cadeirydd nodi'n glir y byddai'r mater hwn yn derbyn sylw pellach yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod.<br>• Rhoddwyd sylw hefyd i'r Strategaeth Drafnidiaeth Leol a'i dyfodol. Nododd Aelod bod y gyllideb arfaethedig yn awgrymu, drwy ryddhau dwy swydd gynllunio trafnidiaeth strategol wag, na fyddai unrhyw waith pellach yn cael ei wneud ar ddatblygu ein blaenoriaethau trafnidiaeth strategol. O ganlyniad, gallai hyn arwain at fethu â chydymffurfio â dyletswyddau statudol yn y maes hwn. Nododd Aelod arall bod y strategaeth drafnidiaeth leol sydd gan y Cyngor yn amlwg yn anghyraeddadwy. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai'r cynigion cyllidebol yn effeithio ar y gallu i gyflawni nifer o bethau y mae'r Cyngor wedi cytuno'n ffurfiol i'w gwneud. O ganlyniad, byddai angen mynd yn ôl ac adolygu rhai o'r dogfennau strategol ac ail-alinio ein dyheadau o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni. Atgoffodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus yr Aelodau bod proses adolygu corfforaethol y tu ôl i'r gyllideb.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bod y Pwyllgor wedi nodi'r Cofnod Gweithredu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

**124. Diweddariad ar yr Olrheiniwr Rheoleiddio**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr Olrheiniwr Rheoleiddio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu Aelodau'n trafod y materion canlynol: |

<table>
<tr><td></td><td>
<ul>
<li>Nododd Aelod bod y Cyngor mewn sefyllfa llawer gwell nawr nag yr oedd flwyddyn yn ôl o ran amlygrwydd a thryloywder, ac roedd yn dymuno diolch i swyddogion am wneud cynnydd da.</li>
<li>Tynnodd Aelod arall sylw at ddau fater:
<ul>
<li>Yr un mater coch – sef sicrhau nad yw plant yn cael eu lleoli mewn gwasanaethau heb eu rheoleiddio, a’r angen i ganfod lleoliadau addas, cofrestredig. Awgrymodd Aelod y dylid cyfeirio’r strategaeth gomisiynu Plant, ac yn enwedig y mater ynghylch plant yn cael eu lleoli mewn gwasanaethau heb eu rheoleiddio, i’r SOSC2 am ystyriaeth bellach.</li>
<li>Un o’r eitemau ambr – sef, cynllunio gweithlu rhanbarthol a’r angen am fwy o syniadau, cynigion a chanlyniadau cadarn yn ymwneud â’r mater hwn.</li>
</ul></li>
<li>Gofynnodd Aelod pa mor gynhwysfawr yw’r Olrheiniwr Rheoleiddio. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus ei fod yn cynnwys holl reoleiddwyr gwasanaethau llywodraeth leol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, ac Estyn.</li>
<li>Er ei fod yn croesawu datblygiad yr olrheiniwr gan awgrymu ei fod yn helpu’r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau, roedd Aelod Lleyg yn credu y byddai’n ddefnyddiol gwybod mwy am gamau gweithredu’r dyfodol (nid yr un a nodwyd yn unig), ac i gael llinell neu ddwy yn dweud beth sydd ar y gweill o ran camau gweithredu’r dyfodol a lle mae’r data cyraeddadwy nesaf.</li>
</ul>
<u>PENDERFYNWYD</u>:
Bu’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y pwyntiau cryno a’r olrheiniwr rheoleiddio manwl, gan godi materion o bryder i’w harchwilio’n ddiweddarach.
Gan fod y Pwyllgor eisoes yn gweithredu proses atgyfeirio o ran archwiliadau / argymhellion penodol i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc perthnasol, roedd y pwyllgor yn derbyn y cynnig ym mharagraff 3.1 o’r adroddiad – sef bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad byr bob chwe mis yn nodi’r hyn sydd wedi digwydd o safbwynt y broses graffu ar eitemau sydd wedi cael eu hatgyfeirio.
</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Penderfyniad</td><td>25 Ionawr 2024</td></tr>
</table>

## 125. Adroddiadau Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno adroddiadau gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu Aelodau'n trafod ystod o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol.<br>• Deddfwriaeth a basiwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n gosod dyletswyddau gorfodol ar awdurdodau lleol heb ddarparu'r adnoddau i'w gweithredu.<br>• Arferion llywodraethu'r awdurdodau Tân ac Achub, ac yn benodol, y gwerth posibl a ddaw drwy recriwtio aelodau annibynnol.<br>• Materion ehangach ynghylch llywodraethu o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.<br>• Arfer da a pherthnasedd adroddiadau archwilio cenedlaethol.<br>• Y gwaith arfaethedig ar reoli rhaglenni cyfalaf.<br><br>Nododd y Cadeirydd bod Pen-y-bont yn gwneud y gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael o ran llywodraethu.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad gan Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Atodiad A. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

## 126. Asesiad Risg Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd darparu Asesiad Risg Corfforaethol diwygiedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu Aelodau'n trafod ystod o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Nododd Aelod ei bod hi'n anodd gwybod lle i ddechrau o ran risg o ystyried y sefyllfa gyllidebol bresennol. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd angen adolygu'r gofrestr risg yn sylweddol. Nododd yr Aelod nad oedd unrhyw beth y gallwn ni ei wneud fel Cyngor i leihau'r risgiau drwy reolaeth effeithiol. Ymatebodd y Cadeirydd |

| | |
|---|---|
| | i hyn drwy nodi bod storm berffaith yn digwydd gan fod popeth yn taro'r Cyngor ar yr un pryd; y materion yn ymwneud â'r gweithlu, yr holl faterion ariannol, a'r galw cynyddol ar draws Pen-y-bont am rai o'r gwasanaethau allweddol.<br>• Mewn perthynas â'r ddau risg etifeddol yn ymwneud â COVID a gynigiwyd ar gyfer eu dileu, awgrymodd Aelod bod angen casglu'r wybodaeth hon yn y gofrestr o ystyried y risg o bandemig ac argyfyngau iechyd yn y dyfodol.<br>• Awgrymodd Aelod bod un risg ar goll yn ymwneud â phenderfyniadau ariannol sy'n cael eu gwneud gan arwain at risg gynyddol o fethu â bodloni gofynion statudol.<br>• Cynigiwyd y gallai'r gofrestr risg fod yn gysylltiedig â'r amcanion lles. Byddai hyn yn darparu trosolwg ehangach a mwy gwerthfawr o effaith y risgiau ar y gymuned ehangach.<br><br>Mewn ymateb i'r drafodaeth, awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, dylid canolbwyntio yn y fersiwn nesaf o'r gofrestr ar y ffordd y caiff y gofrestr ei chyflwyno, ei ffocws a sut y caiff ei hadrodd nawr ein bod mewn cyfnod mor fregus.<br><br>Awgrymodd aelod lleyg, er nad yw materion cyllideb, cyllid a staffio yn risgiau ynddynt eu hunain, y risgiau yw na fyddwn yn gallu gwneud neu gyflawni rhywbeth, a'r rheswm dros hynny mewn gwirionedd yw diffyg cyllideb neu ddiffyg staff. Roedd hefyd yn credu bod mater cyflwyniadol o ran blaenoriaeth y rhestr. Yr un mwyaf amlwg iddo oedd yr un gyda'r risg mwyaf yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, ac roedd wedi'i osod ar waelod y Gofrestr.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Asesiad Risg Corfforaethol (Atodiad A); a chytunodd i ddileu'r risgiau a nodir ym mharagraff 3.2 cyn cyflwyno'r Asesiad Risg Corfforaethol i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 28 Chwefror. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

## 127. Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno drafft o Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2024-25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy'n cynnwys Strategaeth Fenthyca 2024-25, Strategaeth Fuddsoddi'r Trysorlys 2024-25, a Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod rhwng 2024-25 a 2026-27. |

| | |
|---|---|
| | Mewn ymateb i'r drafft o Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2024-25, bu Aelodau'n trafod y materion canlynol:<br><br>• Y meincnod o ran atebolrwydd.<br>• Y ddarpariaeth refeniw gwirfoddol, a phe byddai ein cynlluniau benthyca cyffredinol yn lleihau pe byddem yn lleihau ein rhaglen gyfalaf arfaethedig, a fyddai hynny'n darparu mwy o arian i'r Cyngor ar gyfer y gyllideb refeniw.<br>• Y cyfleoedd benthyca sydd ar gael i Gynghorau Dosbarth, Tref neu Gymuned, a ph'un a fyddai'r Cyngor Bwrdeistref yn benthyca iddynt. Roedd swyddogion yn cydnabod bod hyn yn bosibl er nad oedd y Cyngor wedi gwneud hyn erioed. Gall cynghorau Tref a Chymuned fenthyg gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor:<br><br>• Drafod y drafft o Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2024-25; ac<br>• Argymell y dylid cyflwyno fersiwn derfynol o Strategaeth Reoli'r Trysorlys, sy'n adlewyrchu'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf a oedd ar gael ar 31 Rhagfyr 2023, i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 28 Chwefror 2024. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

**128. Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2022-23**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno Datganiad Cyfrifon archwiliedig 2023-23 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo, a oedd ar fin cael ei ardystio gan archwilwyr allanol, Archwilio Cymru, ynghyd â Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig y Cyngor, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n cael ei gynnwys fel rhan o'r Datganiadau, a llythyr yr archwilwyr mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon.<br><br>Nodwyd cywiriad i'r adroddiad:<br><br>*Bydd adroddiad yr archwilydd Annibynnol o adroddiad Archwilydd Cyffredinol i Gymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont a gynhwysir o fewn y Datganiad Cyfrifon ar dudalennau 79 – 82 (179 - 182 yn y pecyn hwn) yn cael ei ddisodli gan yr adroddiad diwygiedig a gynhwysir yn Atodiad B – yr Adroddiad Archwilio Arfaethedig ar dudalennau* |

| | |
|---|---|
| | *9 - 12 (225 – 228 o'r pecyn adroddiadau). Gwneir hyn er mwyn diweddaru adroddiad archwilio eleni yn dilyn cwblhau'r archwiliad.*<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, roedd Aelodau'n hapus i nodi bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod unwaith y byddant yn derbyn y llythyr cynrychiolaeth, ar ôl trafod i ba raddau y mae barn ddiamod yn ddiofyn yng Nghymru, a, gan ystyried y gallai cynigion cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf arwain at leihad yn niferoedd yn yr adran Gyllid, a oedd swyddogion yn hyderus y byddent yn gallu cwblhau'r cyfrifon o fewn amserlen debyg y flwyddyn nesaf.<br><br>Nododd aelod lleyg bod capsiwn llun (Gorsaf Fysiau Pen-y-bont) ar dudalen 103 o'r Datganiad Cyfrifon heb lun. Cytunwyd y byddai hwn yn cael ei dynnu allan.<br><br>Nododd aelod lleyg, o dan yr adran Grantiau Cyfleusterau'r Anabl ar dudalen 108 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, bod angen cywiro'r cyfeiriad at y Cyngor yn defnyddio fframwaith contractwyr yn ystod '2023-23' i ddweud '2023-24'.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor:<br><br>• Gymeradwyo Datganiad Cyfrifon archwiliedig 2022-23 (Atodiad A).<br>• Nodi adroddiad Archwiliad Cyfrifon gan yr archwilwyr a benodwyd (Atodiad B).<br>• Nodi a chytuno y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth terfynol i Archwilio Cymru yn cael ei lofnodi gan Gadeirydd y Pwyllgor a'r Swyddog Adran 151 (Atodiad C).<br>• Gwneud cais i gyflwyno adroddiad 'gwersi a ddysgwyd' ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

## 129. Datganiad Harbwr Porthcawl 2022-23

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno Datganiad archwiliedig Harbwr Porthcawl ar gyfer 2022-23, a atodir yn Atodiad A i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo. |

| | |
|---|---|
| | Bu Aelodau'n trafod nifer o faterion a chodwyd nifer o gwestiynau mewn ymateb i'r adroddiad, gan gynnwys:<br><br>• Yr hyn sy'n ofynnol i'r Cyngor ei wneud o ran y gweithdrefnau cyfrifeg ar gyfer Harbwr Porthcawl. Cydnabuwyd fod angen i swyddogion baratoi datganiad cyfrifon blynyddol ar wahân ar gyfer gweithgareddau'r harbwr, ac mai dyna pam yr oedd y datganiad yn cael ei gwblhau'n flynyddol.<br>• Statws Harbwr Porthcawl fel rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd gofyniad i'w weithredu ar wahân a bod ganddo gyfrif banc ar wahân er enghraifft. Cafwyd cadarnhad ei fod yn ymwneud â Deddf Harbwrs 1964. Nid oes gofyniad i redeg yr Harbwr fel endid ar wahân. Roedd yr Harbwr yn ffurfio rhan o gyfrifon cyffredinol y Cyngor ac roedd y Datganiad yn Atodiad A yn ddetholiad yn unig o'r cyfrifon llawn.<br>• Yr incwm a gynhyrchir, diffyg cronfa amlwg wrth gefn, a ph'un a oedd yn derbyn cymhorthdal fel rhan o'r Cyngor.<br>• Awgrymodd Aelod y dylai Harbwr Porthcawl fod wedi bod yn ariannu ei hun ers blynyddoedd.<br>• Awgrymodd y Cadeirydd, at y dyfodol, y gallai tudalen gyntaf yr adroddiad ddarparu ychydig mwy o fanylder a fyddai'n helpu Aelodau i ddeall yr hyn sy'n cael ei adrodd, ond hefyd i nodi bod incwm a gwariant gwirioneddol yr harbwr hefyd o fewn Datganiad Cyfrifon y Cyngor.<br>• Cynigiwyd y dylid fframio'r adroddiad mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd ei ddeall.<br>• Roedd statws yr harbwr yn rhoi rhwymedigaeth ar y Cyngor i'w gynnal a'i gadw, yn ogystal â goblygiadau ariannol posibl pe byddai digwyddiad difrifol yn digwydd yno.<br>• Nododd Aelod y gallai'r Cyngor fod yn rhoi cymhorthdal i rywbeth sy'n darparu gwasanaeth i'r rhai hynny sy'n ddigon ffodus i fod yn berchen ar gychod.<br>• Nodwyd bod opsiwn i roi nodiadau datgelu ychwanegol yn y datganiad, megis gwybodaeth gefndirol ar y sail statudol y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi oddi tanynt.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddarparu awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd i gymeradwyo datganiad diwygiedig Harbwr Porthcawl ar gyfer 2022-23 wedi'i archwilio yn Atodiad A, yn ddibynnol ar gynnwys y newidiadau a drafodwyd yn y cyfarfod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

**130. Cynnydd yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2023-24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i Aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y gwaith archwilio oedd wedi ei gynnwys ac a gymeradwywyd yng Nghynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2023-24.<br><br>Cyhoeddodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar ddechrau'r eitem agenda hon bod y cytundeb a arweiniodd at sefydlu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn cyrraedd y cyfnod adnewyddu ym mis Ebrill 2024, a bod un o'r partneriaid, sef Cyngor Rhondda Cynon Taf, wedi nodi nad yw'n dymuno parhau gyda'r bartneriaeth pan fydd y cytundeb pum mlynedd cyntaf yn dod i ben ar 31 Mawrth.<br><br>Ceisiodd sicrhau Aelodau ynghylch dyfodol y gwasanaeth drwy nodi nad oedd unrhyw broblemau o ran ansawdd y gwasanaeth na pherthnasau.<br><br>Roedd trafodaethau gydag awdurdodau lleol eraill ar waith i ymuno â'r bartneriaeth.<br><br>Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd y byddai Aelodau eisiau derbyn sicrwydd y byddai gwasanaeth arferol yn parhau, ac na fydd y datblygiad hwn yn effeithio'n sylweddol ar y gwasanaeth rhanbarthol.<br><br>Nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid mai eu bwriad oedd argymell i'r Cabinet y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont barhau gyda'r trefniant ar y cyd at y dyfodol.<br><br>Roedd y cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg 2023-24 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023 yn dangos bod 22 o'r 42 adolygiad archwilio a gynlluniwyd wedi cael eu cwblhau hyd yn hyn, sy'n gyfwerth â chyfradd gwblhau o 52%. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wedi gosod targed o gwblhau 50% erbyn diwedd chwarter 3, sy'n rhoi Pen-y-bont mewn sefyllfa ffafriol i gyflawni ei dargedau diwedd blwyddyn a galluogi barn gyffredinol.<br><br>O'r 22 archwiliad, mae 19 wedi derbyn *Sicrwydd Sylweddol neu Resymol* ac mae 3 wedi derbyn *Sicrwydd Cyfyngedig.* Mae dau o'r rhain wedi cael eu cwblhau ers yr adroddiad blaenorol, ac roedd manylion wedi cael eu cynnwys o fewn yr adroddiad.<br><br>Yn gynwysedig yng nghynllun eleni roedd 12 archwiliad nad oedd wedi cael eu gwneud neu eu cwblhau yn ystod 2022-23.  Roedd 9 o'r 12 archwiliad bellach wedi'u cwblhau, gyda'r 3 sy'n weddill ar waith. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol Seiliedig ar Risg 2023-24. |
| Dyddiad y penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

## 131. Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd darparu datganiad sefyllfa i'r Pwyllgor ynghylch argymhellion archwilio mewnol a wnaed i nodi'r rhai sydd wedi cael eu gweithredu a'r rhai sy'n weddill.<br><br>Gwnaed cyfanswm o 53 o argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig yn dilyn cwblhau'r archwiliadau yng nghynllun blynyddol 2023-24. Mae pob un wedi cael ei gytuno, a hyd yn hyn, mae 16 ohonynt wedi cael eu gweithredu, mae 6 ohonynt yn hwyr, ac mae gan 31 ohonynt ddyddiad gweithredu yn y dyfodol.<br><br>Roedd 6 argymhelliad yn hwyr yn cael eu cwblhau, a phob un ohonynt wedi cael eu gwneud yn ystod archwiliadau 2023-24.<br><br>Mae 13 o'r argymhellion a wnaed yn archwiliadau 2021-22 a 2022-23 yn dal i ddangos dyddiadau cwblhau yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu Aelodau'n archwilio nifer o faterion:<br><br>• Roedd Aelod yn bryderus nad oedd Seiberddiogelwch yn derbyn sylw digonol. Roedd y mater o benodi Prif Swyddog Diogelu Gwybodaeth yn golygu nad oedd modd mynd i'r afael â'r mater gyda digon o frys a difrifoldeb. Roedd yn credu bod angen ailedrych ar yr adran gyfan ar Seiberddiogelwch a'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor unwaith eto am ystyriaeth bellach. Mewn ymateb, roedd y Cadeirydd yn credu y byddai'r mater hwn wedi dychwelyd fel eitem benodol ym mis Ebrill, neu o leiaf wedi cyflwyno diweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid i gynnal trafodaethau pellach ynglŷn â'r geiriad a'r camau gweithredu a gytunwyd.<br>• Yr angen i fynd i'r afael ag oedi wrth i'r Cyngor gwblhau cytundeb rhwydwaith newydd gyda'r cyflenwr iTrent. Awgrymwyd bod angen gwahodd y Rheolwr Systemau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y |

| | |
|---|---|
| | dyfodol i egluro pryd y byddai'r System iTrent yn cael ei gyflwyno, o ystyried yr holl adolygiadau i'r dyddiad gweithredu gwreiddiol a gytunwyd.<br>• Rôl cyllid preifat mewn ysgolion a'r canllawiau a ddarperir gan yr adran Gyllid i gefnogi ysgolion. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gyllid preifat mewn ysgolion gyda chanllawiau ariannol penodol ar gyfer eu defnydd yn cael eu darparu gan y Tîm Cyllid.<br>• Y risg uchel sy'n gysylltiedig â Cherbydau Ysgol a'r angen i fynd i'r afael â materion trwyddedau gyrru staff ar frys.<br><br>Nododd y Cadeirydd bod nifer o faterion yn yr adroddiad a oedd wedi cael eu hadolygu dro ar ôl tro, a'i fod o'r farn nad oedd hynny'n ddigon da, a bod angen i bobl gael eu dal i gyfrif am faterion sydd heb dderbyn sylw. Felly, cynigiodd y dylid gwahodd y Rheolwr Systemau a'r Cyfarwyddwr perthnasol i gyfarfod y pwyllgor i archwilio'r materion yn ymwneud â'r system iTrent, a bod angen rhoi sylw i'r mater yn ymwneud â cherbydau ysgol ar frys.<br><br>O ran y mater cerbydau ysgol, gofynnodd y Cadeirydd i Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ysgrifennu llythyr brys at y pennaeth a'r corff llywodraethu i'w cynghori y byddent yn cael gwahoddiad gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ateb y materion a amlinellwyd yn yr adroddiad os na fydd y materion yn derbyn sylw.<br><br>Cynigiodd y Cadeirydd y byddai modd mynd i'r afael â'r materion mewn un cyfarfod arbennig unigol, a gofynnodd i'r Gwasanaethau Democrataidd drefnu hynny. Mewn ymateb i hynny, dywedodd Aelod yn glir ei fod eisiau nodi yn y cofnodion nad oedd eisiau i rieni fynd â ni i gyfraith fel corff corfforaethol am beidio â gwneud ein gwaith.<br><br>Gan ychwanegu at hynny, awgrymodd Aelod y dylai'r Pwyllgor gyhoeddi y dylai unrhyw berchennog cam gweithredu sy'n hwyr yn cwblhau'r cam ddisgwyl mynychu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i egluro.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys yr adroddiad a buont yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaethau uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:<br><br>• Bod cyfarfod ychwanegol yn cael ei drefnu erbyn mis Chwefror/Mawrth i edrych ar rai o'r argymhellion archwilio sy'n weddill – yn benodol, y rhai hynny sy'n ymwneud â Cherbydau Ysgol a'r System iTrent – yn yr adroddiad |

| | |
|---|---|
| | monitro Argymhellion Archwilio Mewnol.<br>• Y byddai Seiberddiogelwch yn cael ei ystyried fel eitem ar wahân yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

**132. Grantiau Cyfleusterau'r Anabl – Adroddiad Cynnydd a Datganiad Sefyllfa**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y camau a gymerwyd i wella'r gwasanaeth Grantiau Cyfleusterau'r Anabl ac i ddarparu gwybodaeth ar y sefyllfa hyd yn hyn.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd Aelod y gwelliannau cadarnhaol a wnaed ac edrychwyd ar y mater o wybodaeth gyd-destunol a data perfformiad er mwyn deall sefyllfa bresennol y Cyngor o ran darparu'r gwasanaeth.<br><br>Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn gwneud y gorau o'r cyllid sydd ar gael. Yr unig ffordd y byddai modd sicrhau mwy o swyddi fyddai gyda chyfalaf ychwanegol.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i wella'r gwasanaeth Grantiau Cyfleusterau'r Anabl a'r sefyllfa bresennol, a nodwyd bod swyddogion wedi cyflawni eu cyfrifoldebau i'r Pwyllgor ac y byddai modd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Craffu mwyaf priodol i'w ystyried yn y dyfodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

**133. Blaenraglen Waith 2023-24 a 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2023-24 a'r Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2024- 25.<br><br>Yn ogystal â'r eitemau a amlinellwyd yn yr adroddiad, roedd tri pheth wedi codi yn y cyfarfod a fyddai'n cael eu |

| | |
|---|---|
| | hychwanegu at y Flaenraglen Waith:<br><br>• Adroddiad 'gwersi a ddysgwyd' mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon.<br>• Y cais am gyfarfod ychwanegol ym mis Chwefror/Mawrth i archwilio rhai o'r argymhellion sy'n weddill yn yr adroddiad Monitro Argymhellion Archwiliad Mewnol.<br>• Y byddai Seiberddiogelwch yn cael ei ystyried fel eitem ar wahân yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Yn amodol ar yr addasiadau a drafodwyd yn y cyfarfod, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2023-24 a'r Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2024-25. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

**134. Materion Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Ionawr 2024 |

I arsylwi trafodaethau pellach a gafwyd am yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon ar gyfer Rhan Un a hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:48.